VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Cynllun Cydraddoldeb Hiliol

## crynodeb gweithredol



**Cyngor Bro Morgannwg**
**Isadran Gydraddoldeb**
**Adran y Prif Weithredwr**

## Sut i gysylltu â ni

Er mwyn cael copi o'r arweiniad hwn yn y fformat sydd orau gennych neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:-

Linda Brown
Isadran Gydraddoldeb,
Adran y Prif Weithredwr,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holton,
Y Barri, Bro Morgannwg.
CF63 4RU

Ffôn: 01446 709362
Ffôn testun: 01446 741219
Ffacs: 01446 421479

Cewch gopi o'r cynllun cyflawn drwy fynd i:
http://www.valeofglamorgan.gov.uk/our-_council/equal_opportunities/
E-bost: equalities@valeofglamorgan.gov.uk





## Cyflwyniad

Mae'r Cyngor am sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle a'i bod yr un mor rhwydd i bob aelod o'r gymuned fanteisio ar swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Bydd yn gwneud hynny drwy:

- sicrhau bod pobl yn gallu ymarfer eu hawliau a'u bod yn cael pob parch a chwarae teg
- ddod o hyd i unrhyw arferion annheg yn y broses gyflogi neu wasanaethu a rhoi'r gorau iddynt
- sicrhau bod pob grŵp lleiafrifol yn y gweithle'n cael digon o gynrychiolaeth
- sicrhau bod gwasanaethau'n sensitif i anghenion pawb yn y gymuned.
- hyrwyddo a gwarchod hawliau dynol.



## Y Cynllun

Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol diwygiedig ei lunio ar ôl ymgynghori'n eang â rheolwyr a'r cyhoedd ac mae'n ceisio adlewyrchu pryderon pobl leol y Fro. Mae'n hanfodol bwysig i waith y Cyngor ac yn cael ei gefnogi gan y Prif Weithredwr a'r Aelod o'r Cabinet ar gyfer Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb.



Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000 (fersiwn diwygiedig) hefyd yn gofyn i awdurdodau hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Byddwn yn gwneud hynny drwy asesu ein swyddogaethau a'n polisïau am unrhyw nodweddion a allai achosi annhegwch a chwilio ar hyd yr amser am gyfle i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Gwnaethom gynnydd ers i'r cynllun cyntaf gael ei lunio yn 2005, ac yr ydym wedi dysgu nifer o wersi drwy ymgynghori â chymunedau a manteisio ar gymorth oddi wrth Race Equality First.



## Darparu gwell gwasanaethau

Dyma sut y bwriadwn wella gwasanaethau:-

- Sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael mewn ieithoedd cymunedol drwy eu darparu yn ein llyfrgelloedd
- Trefnu i staff Dysgu gydol Oes fonitro'r ieithoedd sy'n cael eu defnyddio ar gyrsiau SiSIE
- Monitro digwyddiadau hiliol yn yr ysgol yn fanwl a rhoi cyngor am briodasau gorfodol



- Trefnu i'r adran hamdden hyrwyddo cynlluniau fel 'Show Racism the Red Card'

- Cydweithio â phrosiect Sipsiwn a Theithwyr Caerdydd er mwyn cael deall faint o angen am gartrefi sydd ar y gymuned deithiol

- Trefnu i dîm amddiffyn y cyhoedd fonitro digwyddiadau hiliol ar safleoedd trwyddedig

- Bydd siop-un-stop y Cyngor yn helpu gyda materion cyfathrebu a bwriadwn lunio pecyn 'croeso i'r Fro' mewn nifer o wahanol ieithoedd.



## Gwella Cyflogi a Hyfforddiant



- Byddwn yn monitro'n ffordd o recriwtio, dewis a chadw staff yn ofalus iawn er mwyn cael nodi unrhyw dueddiadau perthnasol. Byddwn yn mynd ati i lenwi unrhyw fylchau yn y data sydd gennym am staff presennol.

- Byddwn yn trafod hyfforddiant cydraddoldeb yn ystod sesiynau adolygu datblygiad personol.

- Byddwn yn annog staff i werthfawrogi pobloedd a chrefyddau amrywiol drwy gyhoeddi calendr ar y rhyngrwyd sy'n nodi gwyliau diwylliannol a chrefyddol.

## Cynllun Gweithredu

Rydym wedi llunio cynllun gweithredu er mwyn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a byddwn yn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun cyflawn.



